**Huw Irranca-Davies AC/AM**
**Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-0751
Ein cyf/Our ref DC/HID/00203/18

David J Rowlands AC
Cadeirydd Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales

16 Mai 2018

Annywal David **,**

**Deiseb P-05-0751 - Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant**

Diolch ichi am fy ngwahodd i ymddangos gerbron y Pwyllgor Deisebau ar 1 Mai i drafod y ddeiseb uchod. Yn dilyn y cyfarfod, meddyliais y byddai o gymorth nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â phob un o'r pedwar pwynt a godwyd yn y ddeiseb ynghylch dieithrio plentyn oddi wrth riant.

1. Cydnabod bod unrhyw un sy'n 'Dieithrio Plentyn oddi wrth Riant' yn cam-drin plentyn yn emosiynol ac, wrth ddiffinio'r term, dylid cynnwys y diffiniad a gafwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall rhai rhieni ymddwyn mewn ffordd sy'n dieithrio'r rhiant arall o fywyd y plentyn ac y gall yr ymddygiadau hyn ar ffurf eithafol gael effaith sylweddol a niweidiol ar lesiant emosiynol y plentyn. Mae nifer o ffyrdd i ddisgrifio Dieithrio Plentyn oddi wrth Riant. Mae'n well gennym gyfeirio at ddieithrio plentyn oddi wrth riant, nid fel syndrom neu ddosbarthiad, ond fel ymddygiadau sy'n dieithrio. Y mater pwysicaf i ni yw sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'r ymddygiadau hyn pan fyddant yn digwydd gan ddefnyddio'r fframwaith rheoleiddio a chyfreithiol presennol.

Adolygodd Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru, ei safbwynt ynghylch dieithrio oddi wrth riant ym mis Mawrth 2017. Mae'r Rhwydwaith yn cydnabod yr ymddygiadau a ddisgrifir a'r effaith sylweddol y gallant ei chael ar lesiant emosiynol y plentyn. Cytunodd aelodau'r Rhwydwaith, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, fod gan y Llys Teulu amrywiaeth ddigonol o bwerau i ymdrin ag achosion lle ceir ymddygiadau dieithrio a, lle bo hynny'n briodol, gall awdurdodau lleol Cymru ystyried achosion o dan y gweithdrefnau amddiffyn plant, ac mae hyn wedi digwydd eisoes.  Ar y sail honno, nid yw barn y Rhwydwaith wedi newid, sef bod y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

darpariaethau cyfreithiol presennol yn fwy na digonol er mwyn diogelu llesiant plant pan fydd plant yn cael eu heffeithio gan ymddygiadau dieithrio oddi wrth riant. Prif bryder y Llys Teulu wrth wneud penderfyniadau yw canolbwyntio ar lesiant y plentyn.

2. Comisiynu ac ariannu hyfforddiant gorfodol i weithwyr proffesiynol gan gynnwys staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a Cafcass Cymru (ond nid dim ond y rhain), i'w helpu i adnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant ac i sicrhau eu bod yn gwybod am y trefniadau sydd ar waith i ddiogelu plant rhag niwed.

Mae diogelu ac amddiffyn plant yn nodweddion hanfodol o hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol ac mae'r Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ymarferwyr i weithio mewn sefyllfaoedd cymhleth.

Mae gweithwyr cymdeithasol proffesiynol wedi hen arfer gweithio gyda theuluoedd lle bu chwalfa mewn perthnasau ac yn enwedig lle ceir ymddygiadau sy'n ddifrïol yn emosiynol. Mae achosion cyfraith breifat yn aml yn ymwneud ag anghydfodau rhwng rheini ynghylch trefniadau ar gyfer plant. Mae gweithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr Cafcass Cymru, fel gweithwyr proffesiynol, yn brofiadol wrth ymdrin ag anghydfodau sy'n amrywio o ran difrifoldeb. Cauff gweithwyr cymdeithasol eu goruchwylio gan staff uwch yn eu sefydliadau, ac mae hyn yn darparu lefel ychwanegol o graffu i gefnogi dulliau diogel a chadarn.

Er mwyn cydnabod pwysigrwydd y mater hwn o fewn Cafcass Cymru, mae 'gelyniaeth ddifaddeuant' a dieithrwch fel maes ymarfer ynghyd â'r dysgu a datblygiad cysylltiedig yr ymarferwyr yn cael eu mireinio yng ngoleuni'r arolwg o lenyddiaeth a gwblhawyd gan Brifysgol Caerdydd yn ddiweddar (yn atodedig yn atodiad 1). Bydd y cynllun dysgu a datblygu ar gyfer 2018-19 yn adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddir i weithio gyda 'gelyniaeth ddiwrthdro' ac ymddygiadau dieithrio mewn modd sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae Cafcass Cymru yn cyflogi Cynghorwyr y Llys Teulu/Gwarcheidwaid Plant profiadol a chymwys iawn sy'n gweithio ar rai o'r achosion mwyaf cymhleth a ddaw gerbron y Llys Teulu. Ar lefel achosion, mae'r swyddogion hyn yn darparu cyngor annibynnol i lysoedd a theuluoedd sy'n canolbwyntio ar hawliau, llesiant a buddiannau gorau'r plentyn.

Ar wahân i'w sgiliau a'u barn broffesiynol, mae gan Gynghorwyr Llys Teulu Cafcass Cymru fynediad at amrywiaeth o ddulliau asesu i'w cynorthwyo a'u cefnogi yn eu gwaith. Un o'r dulliau hynny yw'r Rhestr Wirio Asesu Llesiant Plant a'r Glasoed. Mae hwn yn ddull a ddilyswyd yn academaidd y mae holl staff perthnasol Cafcass Cymru yn cael hyfforddiant wedi'i achredu arno.

Mae'r Rhestr hon yn helpu i asesu'r effaith seicolegol ar y plentyn sy'n byw gyda gwrthdaro rhwng rhieni. Mae'r Rhestr hefyd yn helpu i nodi sefyllfaoedd lle mae plentyn wedi cael ei ddylanwadu'n negyddol yn erbyn rhiant. Defnyddir y Rhestr ar y cyd â'r defnydd o asesiad a barn gwaith cymdeithasol proffesiynol i nodi materion diogelu (gan gynnwys niwed emosiynol) ac wrth asesu ansawdd y berthynas rhwng plant a rhieni.

O ganlyniad, mae ymarferwyr yn darparu dadansoddiadau ar sail tystiolaeth sy'n canolbwyntio ar brofiad y plentyn a'r effaith arno. Mae Cafcass Cymru yn ystyried ymddygiadau dieithrio o'r safbwynt hwn.

3. Sefydlu ac ariannu ymgyrch genedlaethol i roi gwybodaeth i blant a'u teuluoedd a'u dysgu am y cysyniad o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant a'r niwed y mae'n ei achosi.

Er fy mod yn cydnabod yr effaith ddifrifol y gall ymddygiadau dieithrio ei chael ar lesiant emosiynol plentyn, y prif fater yw sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'r ymddygiadau hyn pan fyddant yn digwydd gan ddefnyddio'r fframwaith rheoleiddio a chyfreithiol presennol.

Er bod amlygu effaith ymddygiadau o'r fath yn bryder dilys, rydym yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r ymddygiadau dieithrio hyn yn hytrach nag ymdrin â dieithrio oddi wrth riant fel syndrom neu ddosbarthiad ar ei ben ei hun.

Yn fwy eang, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ffocws cadarn ar rianta cadarnhaol ac wedi cefnogi amrywiaeth o wasanaethau cymorth i rieni drwy ei rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mae'n bwysig bod teuluoedd yn derbyn cymorth pan fydd rhieni'n gwahanu i helpu i sicrhau bod ymagwedd bositif tuag at rianta yn cael ei chynnal.

4. Rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin a'u niweidio drwy eu Dieithrio oddi wrth Riant.

Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru eisoes i warchod plant rhag camdriniaeth a niwed ym mhob achos. Rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth ddigonol i'r hawliau a'r rhwymedigaethau cadarn yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i brotocolau dewisol wrth ystyried deddfwriaeth newydd arfaethedig, polisïau newydd arfaethedig ac adolygiad o bolisi a/neu ddeddfwriaeth bresennol, neu newid iddynt.

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gynnwys y Confensiwn o fewn ei chyfraith ddomestig. Adlewyrchir hyn yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar wrth gefnogi teuluoedd, yn enwedig y rheini a chanddynt anghenion cymhleth. Mae hefyd wedi cyflwyno diwygiadau diogelu gan gynnwys fframwaith cyfreithiol cryfach ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AC/AM**
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant
Minister for Children and Social Care